COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

**Bwrdd y Coleg, 3 Gorffennaf 2024 (9:30 – 14:50), Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd) |
| | Ann Beynon |
| | William Callaway |
| | Nia Elias |
| | Dr Rhys Evans |
| | John Hayes |
| | Meri Huws |
| | Yr Athro Anwen Jones |
| | Yr Athro Pedr ap Llwyd |
| | Llinos Roberts |
| | Yr Athro Enlli Thomas |
| **Sylwedyddion:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) |
| | Rhian Huws Williams (Cadeirydd Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr) |
| | Gwenllïan Griffiths (Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu) |
| | Dr Dylan Phillips (Cyfarwyddwr Addysg Uwch ac Ysgrifennydd) |
| | Dr Dafydd Trystan (Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, Addysg Bellach a Chofrestrydd) |
| | Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant) |

| | |
|---|---|
| | Mari Fflur (Uwch Reolwr Polisi) |
| | Suzanne Lewis (Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol) |
| | Dr Lowri Morgans (Uwch Reolwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau) |
| | Rebecca Williams (Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu) |
| **Ymddiheuriadau:** | Angharad Roberts, Gwenllïan Owen |

**Cofnodion Cyfarfod 3 Gorffennaf 2024 – cyfarfod llawn**

## 1. Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Croesawyd Alan Jones a Rhian Huws Williams i'r cyfarfod. | | |
| 1.3 | Croesawyd Suzanne Lewis a Dr Lowri Morgans i'w cyfarfod cyntaf fel uwch reolwyr. | | |
| 1.4 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |

## 2. Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |
| 2.2 | Nododd John Hayes ei fod yn ymwneud â prosiect dichonolrwydd addysg ôl-16 sir Ceredigion. | | |

## 3. Diweddariad ar gyd-destun addysgol ôl-16 yng Nghymru

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Cyflwynwyd diweddariad data gan yr Uwch Reolwr Polisi ar gyd-destun addysgol ôl-16 yng Nghymru. | | |
| 3.2 | Nodwyd y dadansoddiad cychwynnol gan y Coleg i asesu'r ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion a cholegau a'r goblygiadau cynllunio strategol wrth ddarparu cyngor i Medr. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.3 | Trafodwyd rhai materion gan gynnwys pwysigrwydd data dibynadwy ac ystyrlon. | | |
| 3.4 | Derbyniwyd y diweddariad. | | |

**4. Cyflwyniad gan CYDAG (Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg)**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd Dr Gwennan Schiavone, Uwch Arweinydd CYDAG, Catrin Evans, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Llangynwyd, Jeff Evans, Ysgol y Strade, Matthew Evans, Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf a Simon Davies, Pennaeth Ysgol Gyfun Bryn Tawe, ac fe'u croesawyd i'r cyfarfod.* | | |
| 4.1 | Rhoddwyd cyflwyniad ganddynt ar ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd a holwyd nifer o gwestiynau gan aelodau'r Bwrdd. | | |
| 4.2 | Yn ystod y drafodaeth adroddodd swyddogion y Coleg ar y bwriad i sefydlu perthynas swyddogol ar ffurf memorandwm o gyd-ddealltwriaeth gyda CYDAG. | | |
| | *Diolchwyd iddynt am y cyflwyniadau cyn iddynt ymadael.* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Trafodwyd a nodwyd nifer o sylwadau gan yr aelodau yn deillio o’r cyflwyniad. | | |

**5. Cyflwyniad gan ColegauCymru a Choleg y Cymoedd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd Kelly Edwards, Prif Weithredwr dros dro ColegauCymru a Jonathan Morgan, Pennaeth Coleg y Cymoedd ac fe’u croesawyd i’r cyfarfod.* | | |
| 5.1 | Rhoddwyd cyflwyniad gan Kelly Edwards ar swyddogaeth ColegauCymru a’r ddarpariaeth galwedigaethol yng Nghymru.<br>Ar ddiwedd y cyflwyniad holwyd nifer o gwestiynau gan aelodau’r Bwrdd. | | |
| 5.2 | Rhoddwyd cyflwyniad gan Jonathan Morgan ar effaith buddsoddiad y Coleg ar ddarpariaeth ddwyieithog Coleg y Cymoedd.<br>Ar ddiwedd y cyflwyniad holwyd nifer o gwestiynau gan aelodau’r Bwrdd. | | |
| | *Diolchwyd iddynt am y cyflwyniadau cyn iddynt ymadael.* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.3 | Trafodwyd a nodwyd nifer o sylwadau yn deillio o'r cyflwyniadau. | | |

## 6. Eitem 1 - Cofnodion 20 Mawrth 2024

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024. | | |

## 7. Eitem 2 – Materion yn codi

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | **Polisïau adnoddau dynol**<br>Adroddwyd bod y polisïau adnoddau dynol wedi'u hadolygu'n llawn gan gyfreithwyr cyflogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod dolen iddynt yn adran adnoddau dynol adroddiad y Prif Weithredwr. | | |
| 7.2 | **Llythyr Grant Llywodraeth Cymru**<br>Adroddwyd y cylchredwyd Llythyr Grant Llywodraeth Cymru i aelodau'r Bwrdd ar 22 Ebrill 2024. | | |

## 8. Eitem 3 – Materion y Cadeirydd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi bod i Gynhadledd Technoleg a Dwyieithrwydd yng Ngholeg Merthyr ar 26 Mehefin. | | |
| 8.2 | Adroddodd ar sgyrsiau blynyddol unigol gydag aelodau'r Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod mis Mehefin gan nodi'r materion / awgrymiadau canlynol:<br>• awyrgylch a thrafodaethau'r Bwrdd yn dda<br>• aelodau i ddod at ei gilydd yn gymdeithasol<br>• lleoliad cyfarfodydd y Bwrdd<br>• awydd i fod yn rhan o is-bwyllgorau | | |
| 8.3 | Adroddwyd bod proses rheoli perfformiad y Prif Weithredwr wedi ei chwblhau yn ystod mis Ebrill a blaenoriaethau ar gyfer 2024/25 wedi'u cytuno. | | |

## 9. Eitem 4 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar. | | |
| 9.2 | **Cynghori Medr**<br>Adroddwyd ar y gwaith i ddrafftio cyngor cychwynnol i Medr yn yr hydref i'w drafod dan Eitem 12. | | |
| 9.3 | **Bil Addysg Gymraeg**<br>Adroddwyd y bydd y Bil Addysg Gymraeg yn cael ei gyhoeddi mewn pythefnos. | | |
| 9.4 | **Maniffesto'r Coleg**<br>Adroddwyd bod amserlen wedi'i chytuno i baratoi maniffesto'r Coleg ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026. | | |
| 9.5 | **Adroddiad monitro Llywodraeth Cymru**<br>Nodwyd yr adroddiad monitro (Mawrth 2024) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.6 | **Rhanddeiliaid**<br><br>Adroddwyd ar y cyfarfodydd niferus gyda rhanddeiliaid. Adroddwyd hefyd bod y cyflwyniadau fel a gafwyd yn ystod sesiwn y bore yn enghraifft o'r gwaith ymgysylltu sydd yn digwydd gyda rhanddeiliaid. | | |
| 9.7 | **Addysg Uwch**<br><br>Adroddwyd bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Addysg Uwch wedi cyfarfod saith is-ganghellor rhwng Mawrth a Mehefin 2024 pan adroddwyd ar sefyllfa gyfredol y prifysgolion ac i'r Coleg rannu cynlluniau a manylion rôl cynghori Medr.<br><br>Cafwyd trafodaeth fer ar Brosiect Seren ac adroddwyd bod cyfarfod yn ystod mis Gorffennaf gyda'r swyddog yn Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am y prosiect. | | |
| 9.8 | **Addysg Bellach a Phrentisiaethau**<br><br>Adroddwyd bod adolygu'r cynllun gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau yn parhau gydag ymgynghori ffurfiol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd bod cyfarfodydd cynllunio gyda'r colegau addysg bellach a'r darparwyr prentisiaethau yn mynd rhagddo. | | |
| 9.9 | **Eisteddfod Genedlaethol**<br>Rhannwyd rhaglen ddrafft o weithgareddau'r Coleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod y cyfarfod. | | |

## 10. Eitem 5 Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion (Eitem 5i)**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024.<br>Adroddodd yr Ysgrifennydd:<br>• ar strategaeth benodi i'r Bwrdd ar ddiwedd ail dymor William Callaway ym mis Tachwedd 2024<br>• ar yr adborth bositif i'r sesiynau ymwybyddiaeth i aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau'r Coleg a gynhaliwyd yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiweddar ar agweddau benodol o waith y Coleg. | | |
| 10.2 | **Adroddiad holiadur gwerthuso'r Bwrdd (Eitem 5ii)**<br>Cyflwynwyd adroddiad ar holiadur gwerthuso'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd.<br>Adroddwyd ar:<br>• y newidiadau i'r holiadur a oedd yn cynnwys adran ar sgiliau a phrofiadau'r aelodau ac adran ar ddatblygiadau cyfredol a oedd yn canolbwyntio ar Medr eleni<br>• ganlyniadau positif a chadarnhaol yr holiadur<br>• brif themâu'r ymatebion<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |
| 10.3 | **Adroddiad blynyddol (Eitem 5iii)**<br>Cyflwynwyd adroddiad blynyddol gan Rhian Huws Williams, cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd ar archwiliad mewnol tymor yr hydref ar lywodraethiant a'r bwriad o gynnal adolygiad allanol llawn maes o law.<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Rhian Huws Williams y cyfarfod.* | | |

## 11. Eitem 6 – Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cofnodion (Eitem 6i)**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2024.<br>Adroddodd William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg:<br>• ar y cynnydd yn y gwaith diogelwch seibr | | |
| 11.2 | **Y Gofrestr Risg (Eitem 6ii)**<br>Nodwyd y Gofrestr Risg, er gwybodaeth. | | |
| 11.3 | **Datganiad archwaeth risg (Eitem 6iii)**<br>Derbyniwyd y datganiad archwaeth risg. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.4 | **Polisi rheoli risg (Eitem 6iv)**<br>Derbyniwyd y polisi rheoli risg. | | |
| 11.5 | **Adroddiad blynyddol y pwyllgor (Eitem 6v)**<br>Derbyniwyd adroddiad blynyddol y pwyllgor. | | |
| 11.6 | Diolchwyd i William Callaway am ei gyfraniad ar hyd ei ddau dymor o wasanaeth fel aelod o'r Bwrdd ac fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. | | |

## 12. Eitem 7 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024.<br>Adroddodd Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol:<br>• ar warged o £79,773 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023/24<br>• bod cwmni monitro Sterling yn fodlon gyda'r cynnydd yn y cronfeydd a fuddsoddir gan Sarasin ar ran y Coleg | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • ar yswiriant seibr<br>• ar lwyfannau rhannu gwybodaeth | | |

### 13. Eitem 8 – Bwrdd Academaidd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024.<br>Adroddodd yr Athro Enlli Thomas, Cadeirydd y Bwrdd Academaidd ar:<br>• y drafodaeth ar ymchwil agweddau myfyrwyr<br>• y cyflwyniadau gan gadeiryddion paneli pwnc | | |

### 14. Eitem 9 – Bwrdd Strategol Ôl-16

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | **Cofnodion** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol Ôl-16 a gynhaliwyd ar 21 Mai 2024.<br><br>Adroddodd Meri Huws, cadeirydd y Bwrdd Strategol Ôl-16:<br>• ar y drafodaeth i adolygu strategaeth addysg bellach a phrentisiaethau<br>• ar gyflwyniad ar strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth y Coleg<br>• ar Gynhadledd Technoleg a Dwyieithrwydd yng Ngholeg Merthyr ar 26 Mehefin | | |
| 14.2 | Adroddodd Ann Beynon ei bod yn cynnig hwyluso sgwrs rhwng swyddogion y Coleg a chynrychiolwyr o'r byd busnes gyda'r bwriad i gynnal digwyddiad i drafod prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog yn y sector breifat. | | |

## 15. Eitem 11 – Cyfarfodydd nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 20 Tachwedd 2024<br>• 26 Mawrth 2025 | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • 25 Mehefin 2025 | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Alan Jones y cyfarfod.* | | |

**Cofnodion Cyfarfod 3 Gorffennaf 2024 – cyfarfod caeëdig**

**16. Eitem 12 - Cyngor cychwynnol drafft y Coleg i Medr - CYFRINACHOL**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | Cyflwynwyd diweddariad ar ddynodiad y Coleg i gynghori Medr gan y Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu.<br>Nodwyd y diweddariad. | | |
| 16.2 | **Memorandwm o gyd-ddealltwriaeth rhwng y Coleg a Medr (Eitem 12 Atodiad 1)**<br>Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y Memorandwm o gyd-ddealltwriaeth rhwng y Coleg a Medr gan gytuno i ystyried ymhen y flwyddyn a oedd angen adolygu'r ddogfen. | | |
| 16.3 | **Cyngor cychwynnol drafft (Eitem 12 Atodiad 2)**<br>Cyflwynwyd cyngor cychwynnol drafft y Coleg i Medr mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg i'r Bwrdd. | | |
| 16.4 | Nid oedd unrhyw sylwadau gan yr aelodau yn y cyfarfod ond gofynnwyd iddynt eu cyflwyno drwy e-bost erbyn 10 Gorffennaf. | Aelodau i gyflwyno sylwadau i'r cyngor | Erbyn 10 Gorffennaf 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16.5 | **Cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd**<br>Argymhellwyd trefnu cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd yn gynnar yn yr hydref i drafod y Bil Addysg Gymraeg ac i gymeradwyo'r cyngor cychwynnol i'w gyflwyno i Medr. | Trefnu cyfarfod o'r Bwrdd | Hydref 2024 |

**17. Diwedd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 17.1 | Diolchwyd i gwmni Nico am gyfieithu ar y pryd. | | |